

ISSN 2053-5171
Rhifyn 10
Gwanwyn 2016

Herio Materion Crefyddol

William K. Kay
ar William James ar
brofiad crefyddol

Bridget Nichols
ar Addoli: Derbyn, Datblygu
a Byw Traddodiad

Nicholas Thanissaro
ar Y Ddadl ynghylch
Goleuedigaeth
mewn Bwdhaeth Gynnar

Paul Wilson
ar Y Diwygiadau: Ynadol
a Radical

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 10 Gwanwyn 2016

Cynnwys

| | |
|---|----|
| William James ar brofiad crefyddol: William K. Kay | 2 |
| Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad Bridget Nichols | 8 |
| Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar Nicholas Thanissaro | 15 |
| Y Diwygiadau: Ynadol a Radical Paul Willson | 22 |

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Warwick, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

William James ar Brofiad Crefyddol

William K. Kay

Mae'r erthygl hon yn ystyried y drafodaeth ar brofiad crefyddol y seicolegydd a'r athronydd Americanaidd, William James (1842-1910), a gyhoeddodd ei lyfr The Varieties of Religious Experience yn y flwyddyn 1902.

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS3 CS: Astudio Crefydd yn Gymdeithas Gyfoes (A2), 4. Crefydd a'r unigolyn; RS 4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol (A2) Profiad crefyddol; RS 1/2 PHIL: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (AS), 4. Cyflwyniad i brofiad crefyddol: cyfriniaeth.

Pwynt athronyddol cychwynnol William James yw'r cwestiwn ynghylch pa fath o le yw'r bydysawd, ac yn neilltuol a yw safbwynt *monistaidd* yn gywir. Monistiaeth yw'r athrawiaeth sy'n datgan bod realaeth gyfan yn gallu cael ei leihau yn y pen draw i sylwedd unigol. Bydd monist yn honni bod y meddwl a'i holl gynnwys a'i weithgareddau yn rhan annatod o'r byd materol, a bod eich meddwl chi a'm meddwl innau'n gynnwysedig yn y realaeth fawr hon. Mae o leiaf ddau ganlyniad i'r athrawiaeth hon: yn gyntaf, fod popeth, yn cynnwys realaeth ysbrydol, â sylfaen faterol iddi, ac, yn ail, nad yw da a drwg yn bethau ar wahân ac arbennig, ond wedi eu huno ynghyd ar lefel fetaffisegol. Ymwrthododd James â'r safbwyntiau hyn. Honnai ef fod y bydysawd wedi cael ei drefnu ar egwyddorion amrywiol, ac na allai Duw fod yn gyfrifol am ddrygioni, ac

felly, os yw drygioni yn mynd i gael ei orchfygu yn y diwedd, rhaid i Dduw fod ar wahân iddo. Roedd hefyd o'r farn, fodd bynnag, fod Duw yn 'feidraidd, naill ai mewn grym neu wybodaeth, neu'r ddeubeth' - safbwynt yr oedd yn credu a berthynai i'r 'credadun cyffredin' hefyd – *[God is] 'finite, either in power or knowledge, or in both' – [a view that he believed to be that of the 'common believer' also]* (Putnam, 2007, t. 189).

Roedd yr ystyriaethau hyn yn cyd-fynd â chred James yn unigolyddiaeth hunaniaeth ddynol ond roedden nhw hefyd yn gydnaws â'i ddealltwriaeth bod yn ofynnol i bob person feddu ar yr hunan i'r hwn y gall pob profiad mewn rhyw ffordd gysylltu eu hunain ag ef. Neu, i roi hwn mewn ffordd arall, rhaid bod rhywbeth sy'n gwarantu parhad pob unigolyn dynol fel bo'r profiadau a gewch yn wirioneddol yn eiddo i chi eich hun, ac

Profiad Crefyddol

yn parhau i fod yn perthyn i chi trwy gydol eich bywyd a bod fy mhrofiadau innau yn parhau i berthyn i mi trwy gydol fy mywyd i. Yn draddodiadol credir mai'r enaid oedd yn darparu'r cysylltiad rhwng ein profiadau, y llinyn ar yr hwn y byddai'r cyfan ohonyn nhw'n cael eu hongian. Er nad oedd James yn anwybyddu'r posibilrwydd fod pob bod dynol yn meddu ar enaid, fe osododd yr hunan yng nghanol profiad: yr hunan oedd yn derbyn profiad ac yn ei ddehongli.

Profiad crefyddol

Dangoswyd gan bobl a adroddodd am gyfarfyddiadau â syniadau crefyddol, neu fodau neu amgylchiadau beth a olygai James â phrofiad *crefyddol*. Yr oedd unigolion yn gallu cael profiad o ollyngdod oddi wrth euogrwydd a phryder yn dilyn yr hyn y byddai ef neu hi yn ei ystyried yn gyfarfyddiad â Christ; fe allai unigolyn deimlo ei fod wedi ei lwyr lyncu yn yr anfeidrol a chymryd bod hyn yn gyfarfyddiad â Duw; fe allai unigolyn deimlo yn un â'r holl fydysawd mewn un foment gydseiniol. Cafodd y profiadau hyn eu hadrodd naill ai'n ddigymell ac yn hunangofiannol mewn llyfrau neu lythyrau neu eu hennyn gan ymchwilwyr trwy ofyn i bobl ysgrifennu am gyfarfyddiadau â grymoedd sydd y tu allan i'w bywydau beunyddiol.

Casglodd James ddwsinau o adroddiadau o'r fath mewn gwahanol ieithoedd, ac yn codi o grefyddau gwahanol, a'u trefnu mewn grwpiau (tröedigaeth, santeiddrwydd, cyfriniaeth) a cheisio eu dirnad. Yr oedd yn credu ei bod yn bosib olrhain crefydd fel cyfanrwydd i brofiadau o'r fath ymhlith nifer di-rif o unigolion ac roedd yn ofalus i wahaniaethu rhwng profiad a adroddwyd a'i werth.

Roedd yn eithaf parod i gredu y gallai profiadau anghyffredin a rhyfedd fod â manteision seicolegol a thrwy hyn mae'n ymddangos ei fod yn golygu dau beth.

- Yn gyntaf, fe ystyriodd, yng nghwrs cyffredin datblygiad seicolegol, bod pob un ohonom yn tueddu tuag at uniad ac integreiddiad personoliaeth gymaint fel bod pob gwrthgyferbyniad ac anghydbwysedd yn cael eu symud ymaith. Gallai'r hunan rhanedig - un oedd bob amser yn rhyfela yn erbyn ei hun - gael ei uno gan brofiad crefyddol. Gallai'r un a oedd yn teimlo'n euog neu'n bryderus ganfod bod yr emosiynau negyddol hyn yn cael eu tynnu ymaith ar ôl derbyn profiad o'r anfeidrol, yn arbennig felly os yw'r profiad hwn hefyd yn un o gariad diamod.
- Yn ail, soniodd am yr enaid 'gwael' a'r enaid 'iach' gan nodweddu yma ddau fath eang o bobl (James, 1902, darlithoedd IV-VII). Byddai'r *enaid gwael* yn dueddol o fod yn besimistaidd, yn gweld methiannau a gwallau ynddo ef ei hun neu ynddi hi ei hun, gan edrych ar ochr dywyll bywyd - ar salwch, poen a marwolaeth. Byddai'r *enaid iach*, i'r gwrthwyneb, yn cael ei gynnal gan optimistiaeth a byddai'n edrych ar ochr gadarnhaol bywyd - ar harddwch mewn natur, cynnydd mewn hanes y ddynoliaeth a llawenydd perthnasoedd dynol. Ym meddwl James, tueddai'r ddau gategori hyn o bobl, ddod at grefydd mewn ffordd wahanol i'w gilydd. Byddai'r enaid gwael yn hunan-boenydiol, ond a fyddai efallai yn y pen draw, yn aml trwy brofiad tröedigaeth radical, yn canfod heddwch ac integreiddiad personol. Ni fyddai'n rhaid i'r enaid iach ymgymryd

Profiad Crefyddol

â thaith grefyddol mor ddramatig. Yn yr achos hwn byddai'r llwybr tuag at y bywyd crefyddol yn symlach er y gallai arwain i gyfeiriadau amrywiol, naill ai tuag at grefydd gonfensiynol yn cael ei mynegi trwy fywyd ac addoliad annibynnol, neu tuag at gariad at natur yn ymylu ar bantheistiaeth.

Beirniadaeth ar waith James

Ysgrifennai James yn gynnar iawn yn yr ugeinfed ganrif pan oedd seicoleg yn ei fabandod. Roedd cytundeb eang yn bodoli a oedd yn datgan fod bodau dynol yn meddu ar foddau isganfyddol o ymwybyddiaeth sydd heb fod yn ddealladwy ar unwaith i'n meddyliau rhesymol. Mae'n bosib i ni allu cael meddyliau a theimladau sydd ddim ond yn arnofio i'r wyneb mewn breuddwydion, neu dan hypnosis, neu drwy gysylltiadau geiriau, dyma offer seiciatryddol cynnar. Er nad oedd James yn derbyn pob manylyn o ddamcaniaeth seiciatrig gynnar, roedd yn derbyn y gallai profiad o Dduw ddod atom trwy ein hisymwybod. Ni wnaeth James ymchwilio i unrhyw un o'r mecanweithiau y gallai hyn ddigwydd trwyddyn nhw, naill ai yn ei ysgrifau nac yn y sylwadau a wnaeth ar adroddiadau pobl eraill am eu profiad crefyddol. Yn syml, nodi a wnaeth bod ein hymwybod yn llawer mwy eang na'r ymwybyddiaeth a gawn gan ein meddyliau effro o ddydd i ddydd.

Roedd y feirniadaeth fwyaf cyffredin am James yn honni ei fod wedi rhoi gormod o le i brofiadau eithafol neu ryfedd heb dalu digon o sylw i brofiad crefyddol cyffredin a phrofiadau oedd heb fod yn gynhyrfus. Mewn ateb i'r feirniadaeth hon byddai James wedi dweud ei fod yn ceisio mapio maes y profiad crefyddol a'i gategoreiddio, a hynny heb archwilio'r ystod lawn o brofiadau na allai obeithio ei ddisgrifio'n

iawn. Roedd arno angen y cyfrinyddion Pabyddol mawr fel y Santes Teresa o Avila a Sant Ioan y Groes, a'r Protestant John Bunyan, ynghyd â ffynonellau nad oedden nhw'n Gristnogol (yr Upanishadau) a ffynonellau dyniaethol.

Mae'n ymddangos mai William James oedd yr ysgrifennwr cyntaf i feddwl am y syniad o dröedigaeth fel uniad personoliaeth, personoliaeth a oedd ynghynt yn anghytuno â hi ei hun ac yn rhwym mewn gwrthgyferbyniad (cf. James, 1902, darlithoedd VIII-X). O fewn y traddodiad efengylaidd y mae James yn tynnu'n helaeth oddi arno yn y fan hon, ystyrir tröedigaeth fel proses ddiwylliannol fforensig o gyfiawnhad, ond ychydig iawn o gyfeiriad, os nad dim o gwbl, sydd at yr agwedd hon o dröedigaeth yn ysgrifau James. Nid yw chwaith yn canolbwyntio ar dröedigaeth fel proses o ryddhad oddi wrth bechod ac euogrwydd cysylltiedig er, yn gynwysedig yn ei ysgrifau, gellir ystyried yr elfennau hyn o'i drafodaeth gynnar ar natur realaeth fel rhai sy'n cynnwys egwyddorion gwrthgyferbyniol o ddaioni a drygioni. Yn y cyswllt hwn, felly, mae ei fethiant i roi archwiliad llawn i'r testunau a gasglodd yn anffodus. I'r Cristion efengylaidd, newidir yr hunan pechadurus am hunan cyfiawn drwy weithred ysbrydol neu seicolegol yn ddibynol ar ganfod Iesu.

Ymestyniadau ar waith James

Mae astudiaethau eraill wedi cymryd dyfyniadau dethol o '*Varieties*' gan James wedi eu cyflwyno ar ffurf llyfryn, a chael yr ymatebwyr i raddio ar raddfa 5-pwynt y graddau i nodi os oedden nhw ryw dro wedi cael profiadau fel pob un o'r rhain - *'presented them in booklet form, and had respondents rate on a 5-point scale the degree to which they had ever had an experience like each of these'*

Profiad Crefyddol

(Hood, et al, 1996, t. 250). Mae'r *'Religious Experience Episodes Measure'* (REEM) yn cynhyrchu canlyniadau sy'n gallu generadu graddau sy'n mesur pa mor eang erbyn heddiw yw'r profiadau a gasglwyd gan James - ac y maen nhw'n syndod o eang er bod y ffigyrau'n amrywio yn ôl oed, rhyw, gwlad, gogwydd crefyddol ac ati. Yn y flwyddyn 1985 cynhaliodd David Hay gyfweiliad gyda sampl o breswylwyr Nottingham a chanfod bod 62% ohonyn nhw wedi bod yn ymwybodol o bresenoldeb neu rym neu wedi cael eu dylanwadu gan hynn, pa un ai y byddech yn ei alw'n Dduw ai peidio, sy'n wahanol i'ch hunan beunyddiol – [62% had] *'been aware of or influenced by a presence or power, whether you call it God or not, which is different from your everyday self'*; tra roedd arolygon trwy holiadur o sampl ar hap ym Mhrydain yn yr 1970au a'r 1980au wedi rhoi ymateb cadarnhaol i'r un cwestiwn o rhwng 36 a 48% (Hay, 1987, penodau 8-10; 1990, pen. 5 a t.79-84). Mae ymchwil arall wedi cylchdroi o gwmpas y llu o sbardunau sydd yn bod er hwyluso profiadau cyfriniol ac wedi nodi bod unigolion wedi adrodd eu bod wedi colli gafaél ar yr hunan trwy gael eu hamsugno i wrthrych o ganfyddiaeth. Ystyriwyd y colli hwn o'r hunan yn gyfatebol i awgrymiadaeth hypnotig ac yn destun profion pellach mewn ymdrech i fireinio damcaniaeth ynghylch crefydd.

Goblygiadau gwaith James

Gallwn nodi tri o oblygiadau yn ngwaith James.

- Yn gyntaf, mae ei bwyslais ar brofiad yn symud cyfeiriad ein sylw oddi wrth greddoau, sefydliadau a defodau at y pwnc o brofiad. Gellir astudio credoau a'u mesur trwy ddata holiadur, a gellir cymharu credoau crefyddol a chredoau anghrefyddol a'u cydberthnasu. Gellir hefyd astudio sefydliadau crefyddol trwy arsylliad uniongyrchol yn ogystal â thrwy gyfrwng ymchwil hanesyddol. Gallwn weld pa draweffaith y mae sefydliadau crefyddol wedi eu cael ar gymdeithas ac, i raddau, ar unigolion. Yn yr un modd, gellir astudio defodau crefyddol trwy arsylliad uniongyrchol a gellir olrhain pwrpas a tharddiad defod er mwyn rhoi syniad i ni o sut beth yw cymryd rhan mewn gweithgareddau crefyddol. Mae profiad, o'i gymharu, yn fwy byrhoedlog, a llai amlwg, ac yn anos canolbwyntio arno. Mae James wedi dwyn y dimensiwn cyfan o brofiad i mewn i gylch ymchwil ac wedi gwneud ysgolheigion astudiaethau crefydd yn ymwybodol o'i bwysigrwydd.
- Yn ail, rydym yn nodi'r gwahaniaeth rhwng profiad crefyddol unigol a phrofiad crefyddol cymunedol. Roedd y rhan fwyaf o'r profiadau a gofnododd James yn rhai unigol a llawer ohonynt tu hwnt i gyd-destun unrhyw seremoni neu weithgaredd crefyddol. Eto mae profiadau crefyddol yn gallu digwydd mewn sefyllfaoedd cymunedol neu gynulleidfaol, ac mae'n bwysig cynnwys y rhain mewn unrhyw asesiad llawn ar draweffaith profiad ar unigolion. Nid yw astudiaeth o brofiad crefyddol yn atal astudiaeth ar agwedd gymunedol crefydd na'r ffordd y gall profiadau crefyddol a sefydliadau crefyddol fod yn gysylltiedig.
- Yn drydydd, fe wnaeth James wahanu profiad crefyddol oddi wrth ei werth. Roedd yn eithaf eglur y gallai profiadau anarferol fod yn werthfawr iawn yn y syniad eu bod o fudd seicolegol. Gellid dadlau bod y

Profiad Crefyddol

gwahaniaeth hwn yn gydnaws â'r amcan 'dysgu gan' sy'n rhan fawr o astudiaethau crefyddol. Yn union fel y dynion a merched hynny gafodd brofiadau anghyffredin yn y gorffennol yn gallu adrodd am eu profiadau ac elwa ohonyn nhw, felly hefyd y gall y myfyriwr modern, mewn astudiaeth o grefydd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â hi, dynnu allan amryw o wersi moesegol a rhai gwersi eraill. Er

hynny, mae James yn eithaf eglur bod yr ateb i'r cwestiwn ynghylch "gwrthrychedd" yn hollol annibynnol o'r manteision bywydegol a seicolegol sy'n deillio o brofiadau cyfriniol - 'James is quite explicit that the answer to the "objectivity" question is quite independent of the biological and psychological benefits that accrue from mystical experiences' (Gale, 2009, t. 19; cf. Astley, 2015).

Cysylltau

https://en.wikipedia.org/wiki/The_Varieties_of_Religious_Experience
(Wikipedia)

https://en.wikipedia.org/wiki/William_James (Wikipedia)

<https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=3&sqj=2&ved=0ahUKEwjPy6fDvODJAhUDfRoKHYayC38QFqgsMAI&url=http%3A%2F%2Fpinkmonkey.com%2Fdl%2Flibrary1%2Fbook1126.pdf&usq=AFQjCNFDxifq9fKEOcpdd3jo13BTbVlvJw&bvm=bv.110151844.d.ZWU&cad=rja> (Testun The Varieties of Religious Experience)

[com%2Fdl%2Flibrary1%2Fbook1126.pdf&usq=AFQjCNFDxifq9fKEOcpdd3jo13BTbVlvJw&bvm=bv.110151844.d.ZWU&cad=rja](https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=3&sqj=2&ved=0ahUKEwjPy6fDvODJAhUDfRoKHYayC38QFqgsMAI&url=http%3A%2F%2Fpinkmonkey.com%2Fdl%2Flibrary1%2Fbook1126.pdf&usq=AFQjCNFDxifq9fKEOcpdd3jo13BTbVlvJw&bvm=bv.110151844.d.ZWU&cad=rja) (Testun The Varieties of Religious Experience)

Pwyntiau trafod

1. Sut byddech chi'n diffinio 'profiad crefyddol'? Allwch chi feddwl am ddull gwell na'r un a ddyfeisiwyd gan James?
2. Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n ddilys i wahanu gwerth profiad oddi wrth y profiad ei hun, fel y gwnaeth William James?
3. Pa mor rhesymol yn eich tyb chi yw gweld tröedigaeth grefyddol fel rhywbeth sy'n ymwneud ag uno'r bersonoliaeth ddynol?
4. Allwch chi awgrymu sut byddech chi'n gallu astudio profiadau crefyddol, a sefydliadau a defodau crefyddol, a defnyddio'r dystiolaeth o astudiaeth o'r fath er mwyn llunio adroddiad cyfansawdd am grefydd?

Cyfeiriadau

- Astley, J. (2015). The objectivity of religious experience: Philosophical arguments. *Challenging Religious Issues*, 7, 2-8 (<http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/Aleveljournal.html>)
- Gale, R.M. (2009). William James. In *Twentieth-century philosophy of religion* (tt. 13-25). Eds. G. Oppy & N.N. Trakakis, Durham: Acumen.
- Hay, D. (1987). *Exploring inner space: Scientists and religious experience*. London: Mowbray.
- Hay, D. (1990). *Religious experience today: Studying the facts*. London: Mowbray.
- Hood, R. W., Spilka, B., Hunsberger, B., & Gorsuch, R. (1996), *The Psychology of religion: An empirical approach*. London: Guildford Press.
- James, W. (1902). *The varieties of religious experience: A study in human nature*. New York: Longmans, Green, & Co (a sawl argraffiad arall).
- Putnam, R.A. (2007), William James. In *The Routledge companion to the philosophy of religion* (tt.181-190). Eds. C. Meister & P. Copan, London: Routledge.

Y Parchedig Athro William Kay oedd sylfaenydd-gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Pentecostaidd a Charismataidd ym Mhrifysgol Bangor. Yn ddiweddarach ef oedd Athro Astudiaethau Pentecostaidd Prifysgol Caer. Ar hyn o bryd, ef yw Athro Diwinyddiaeth Prifysgol Glyndŵr. Mae'r llyfrau a gyhoeddwyd ganddo yn cynnwys Pentecostalism: A very short introduction (Oxford University Press, 2011) a Pentecostalism: Core Text (SCM Press, 2009).

Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad Bridget Nichols

Mae'r erthygl yn ystyried addoli fel gweithred sy'n amlwg yn un a rennir, sydd â'i ffurfiau yn adrodd llawer am y modd y mae cymunedau yn dirnad Duw. Yn ogystal ag edrych hefyd ar yr Ysgrythur a thraddodiad fel y prif ffynonellau ar gyfer patrymau addoliad, mae'n myfyrio ar y ffordd y mae'r llinynnau hyn yn cael eu hamsugno yn y cyd-destun o fyw. Mae hyn yn cymryd gwahanol ffurfiau mewn gwahanol gymunedau Cristnogol. Mae rôl addolwyr fel dehonglwyr, a rôl y corff mewn addoliad yn destunau pwysig yn y datblygiad hwn.

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS1/2 CHR: Cyflwyniad i Gristnogaeth (AS), 3. Addoliad a sacramentau mewn Cristnogaeth gyfoes; hefyd RS4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol(A2), Profiad crefyddol [mewn Cristnogaeth]

Pam addoli?

Mae addoli, yn ei ystyr ehangach, yn dechrau fel ymateb i fodolaeth oruwchnaturiol neu drosgynnol, neu i wrthrych ag arwyddocâd trosgynnol. Bydd profiad personol grymus o Dduw, fel y weledigaeth gafodd Moses o'r berth yn llosgi (Genesis 3:1-6) neu gyfarfyddiad y Sêr-ddewiniaid â'r baban Iesu (Mathew 2:9-12), yn gallu peri tuedd neilltuol o ryfeddod a pharch. Fe allai profiadau sy'n darbwylo unigolion o ymyrraeth Duw yn eu bywyd arwain at ffrwydrad o foliant a llawenydd, fel yn achos Mair pan gaiff ei chyfarfarch gan Elizabeth fel mam y gwaredwr (Luc 1:46-55).

Ar eu pen eu hunain gall yr enghreifftiau hyn roi argraff gamarweiniol fod addoliad yn ffenomenon bersonol benodol. Fe fydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â bod yn rhan o ymgynulliad ar gyfer gweddïo a moliannu oddi mewn i draddodiad ffydd yn gwybod nad yw hyn yn wir. Gallwn ystyried yr offrymiad torfol o ddiolchgarwch, ymbiliau ac addoliad a wnawn i Dduw yn bethau normadol - y modd gwreiddiol - wrth sôn am addoli. Gall y math hwn o ddod ynghyd mewn gwirionedd ddarparu'r cyd-destun sy'n rhoi lle i brofiad grymus o Dduw, fel y modd y cafodd Eiseia ei alw yn ystod gweddi yn y Deml (Eiseia 6), ac ymddangosiad yr angel gerbron

Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad

Sechareia, yn cyhoeddi genedigaeth Ioan Fedyddiwr (Luc 2:5-14).

Sut y mae addoliad yn cael ei gyflwyno a'i drefnu?

Mae'r ffordd y caiff addoliad ei gyflwyno yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ynghylch dealltwriaeth cymuned am Dduw. I'r perwyl hwn fe ysgrifennodd Nicholas Wolterstorff am y Duw sy'n ein cyfarch yn ein hamser ni trwy'r Ysgrythur a thrwy batrymau gweddi arferol yr eglwys, fel un sy'n fregus i gael ei niweidio gan fodau dynol (trwy ddod i gasgliad o'r ffaith ein bod yn cyffesu ein pechodau ac yn gofyn am faddeuant) ac yn un sydd nid yn unig yn llefaru ond sydd hefyd yn gwranddo (tystiolaeth o hyn yw amllder y gweddiâu sy'n gofyn rhywbeth, ac sy'n disgwyl i Dduw fod yn clywed) (Wolterstorff, 1995, 2015).

Mae hyn yn rhagdybio'r hyn sy'n wir ar gyfer y mwyafrif o enwadau Cristnogol, sef eu bod yn trefnu eu cynulladau, a'r geiriau a'r gweithredoedd maen nhw'n eu defnyddio yn unol â system o'r fath. Er mwyn archwilio hyn ymhellach, mae'n ofynnol i gyflwyno term arall: *litwrgi*. Nid yw'r diffiniadau o litwrgi, a'r berthynas rhwng addoliad a litwrgi yn gytunedig unffurf. Fe ddywed Louis Weil wrthym fod cwmpas "addoliad" yn fwy na, er enghraifft, litwrgi neu ddefod. . . . mewn cyd-destun crefyddol neilltuol . . . caiff addoliad ei ddirnad fel rhyw fath o ymateb i'r un sy'n cael ei alw'n Dduw Mewn defodau litwrgaidd, yn enwedig ers dyfeisio argraffu ac, o ganlyniad, safoni testunau litwrgaidd, geiriau sydd wedi bod y prif fodd o fynegi'r ymateb hwn - "*worship*" is larger in scope than, for example, *liturgy* or *ritual*. . . . [I]n a specifically religious context . . . worship is understood as some form of response to the one who is called God In liturgical rites, particularly since the invention of printing and the consequent

standardization of liturgical texts, words have been the dominant mode of that response" (Weil, 2013, t. 4).

Eglura Benjamin Gordon-Taylor fod "litwrgi" wedi dod i nodi corff strwythurol o destun a defod, trwy'r rhain y mae'r eglwys fel uned gorfforaethol yn cyflwyno addoliad i Dduw - "*liturgy*" has come to denote the structural body of text and ritual by which the church as a corporate body offers worship to God'. Mae'r rhagdybiaeth eu bod yn gyfystyr wedi arwain yn anghynorthwyol at gysylltiad ar y naill law o "addoliad" gyda'r traddodiadau Diwygiedig a "litwrgi" ar y llaw arall gyda'r Catholig a'r Uniongred - [The assumption that they are synonymous] 'has led unhelpfully to an association of "worship" with the Reformed traditions and "liturgy" with Catholic and Orthodox". Yn hytrach, *litwrgi* yw'r modd trwy'r hwn y mae'r eglwys yn cyflwyno *addoliad* i Dduw - "*liturgy is the means whereby worship is offered to God by the church*" (Gordon-Taylor, 2013, tt. 13-14).

Er hynny, mae'n gyffredin i ddod o hyd i 'litwrgi' ac 'addoliad' yn cael eu defnyddio'n ymgyfnewidiol, neu i glywed y rhai sydd â chyfrifoldeb am drefnu gweithredoedd o addoliad yn disgrifio eu hymarfer fel rhai 'an-litwrgaidd'. Ac yn y traddodiad Uniongred Dwyreiniol, fe fyddai 'y litwrgi' yn golygu dathliad o'r ewcharist (yr offeren).

Awdurdod mewn addoliad

Bydd Catholigion Rhufeinig ac Anglicaniaid yn gyfarwydd â ffurfiau rhagnodedig o iaith litwrgaidd a rolau llefaru diffiniadwy eglur ar gyfer y rhai sy'n arwain addoliad a'r rhai sy'n ffurfio'r gynulleidfa. Gall fod llawer o'r cynnwys â'i wraidd yn mynd yn ôl ymhell i hanes ymarfer Cristnogol (yn aml yn tynnu ar gyfansoddiad litwrgaidd Rhufeinig o'r bumed hyd at yr wythfed ganrif). Dyma'r

Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad

union beth sy'n dod yn broblemus i eraill - yn enwedig mewn eglwysi a ffurfiwyd yn lleol, cyrff a ffurfiwyd yn 'sylfaenol' eglwysi tŷ ac eglwysi cymuned, heb adnabyddiaeth enwadol benodol. Yma, mae'r syniad o eiriau yn cael eu gorfodi gan gorff canolog yn cael eu gwrthod, ar y sail nad yw iaith o'r fath yn gallu cyfleu profiad dydd i ddydd y gymuned neu ei phrofiad o Dduw.

Ysgrifenna Patrick Littlefield am yr apêl mewn eglwysi sy'n ymddangos i fynegiannau cyfriniol o ysbrydolrwydd sydd nid yn unig yn cysylltu â Duw, ond hefyd yn cysylltu â diwylliant - '*appeal in emerging churches to mystical expressions of spirituality that not only connect with God, but also connect with a culture*'. Mae eglwysi sy'n dod i'r amlwg yn gwneud rhywbeth unigryw wrth iddyn nhw ryngweithio â'r diwylliant y maen nhw'n cael eu hunain ynddo - [emerging churches] '*are doing something unique as they interact with the culture in which they find themselves*' (Littlefield, 2010, tt. 43-44, 48). Mae'r ymwybyddiaeth gyd-destunol hon i'w chanmol, ond ynddi ei hun nid yw'n gwarantu y bydd llefaru hunan-gynhyrchiol y gymuned yn ymateb dilys i'r Duw sy'n llefaru. Ni fydd ychwaith yn diogelu rhag ffurfiau mwy llechwraidd o awdurdod a weithredir gan arweinwyr grŵp grymus.

Sut y datblygodd y drefn sy'n rheoli addoliad?

Nid peth syml o gwbl yw'r modd y gweithredodd y ddwy brif ffynhonnell o wybodaeth am ddechreuadau addoliad Cristnogol - yr Ysgrythur a thraddodiad - eu dylanwad. Tuedda Cristnogion sy'n ymarfer y ffydd i dderbyn yr Ysgrythur fel y caiff ei dehongli gan yr eglwys (y cymunedau addoli y maen nhw'n perthyn iddyn nhw). Cafodd y cysyniadau fel

'aberth' eu dirnad a'u dehongli'n wahanol gan wahanol gyrff eglwysig ar hyd y canrifoedd. O'r dyddiau cynnar pryd y daeth grwpiau wedi eu trefnu ynghyd i addoli Duw, cafodd y neges Gristnogol ei throsglwyddo ar hyd amrywiol lwybrau a dod wyneb yn wyneb â gwahanol ddiwylliannau lleol.

Mae Paul Bradshaw yn cynghori y dylid cymryd gofal mawr wrth ragdybio bod digwyddiadau neilltuol a gofnodir yn y Beibl, neu gan Gristnogion cynnar, yn cyfeirio at ddefodau gwirioneddol, neu hyd yn oed - fel yn achos yr adroddiadau am y Swper Olaf - eu bod yn benodol ar gyfer cymunedau Cristnogol (Bradshaw, 2002, tt. 55-56). Er ein bod yn gallu pwyntio at gyfeiriadau at y swper olaf a bedydd, a chyfarwyddiadau i rannu'r pryd bwyd ac i fedyddio, nid oes canllawiau ar y modd y dylid gwneud hyn (McGowan, 2014, t. 10). Yr agosaf y deawn at gael unrhyw fath o reolau yw pan fydd Paul yn ceryddu'r Cristnogion lleol am weithredoedd drwg (1 Corinthiaid 11:17-22). Mae'n anoddach fyth sefydlu'r cysylltiadau rhwng y swper olaf a phryd bwyd y Pasg Iddewig (y Pesach) yn y datblygiadau diweddarach ynghylch ymarfer yr ewcharist, neu rhwng defodau bedydd Iddewig a'r arfer o dderbyn Cristnogion newydd trwy fedydd, o gyfnodau cynnar iawn y traddodiad Cristnogol.

A yw'r litwrgi'n Feiblaidd?

Rydym wedi nodi rôl yr Ysgrythur yn y modd y mae'n cynnig cynseiliau ar gyfer gweithredoedd gwirioneddol ym mywyd cymunedol yr eglwys, hyd yn oed os nad yw'n darparu cyfarwyddiadau gwirioneddol ar gyfer defodau. Gellir dadlau bod dylanwad mwy uniongyrchol y Beibl ar addoliad Cristnogol yn y penderfyniad i gydbwysu gweddi a

Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad

moliant â chyfarwyddyd ac esboniad. Yn y mwyafrif o eglwysi, caiff darlleniadau o'r Hen Destament a'r Newydd eu dewis yn unol â threfn sydd wedi ei chynllunio i ddarparu amlygiad strwythurol i'r Ysgrythur. Gellir darganfod enghreifftiau o *lithiaduron* o'r fath yn dyddio o gyfnod cynnar iawn yn natblygiad yr eglwys. Ar hyn o bryd, mae'r prif eglwysi yn defnyddio'r *Llithiadur Cyffredin Diwygiedig*. Mae'r cynllun hwn yn ymgais i sicrhau bod addolwyr yn ymgyswgu â'r Efengylau, ysgrifau'r proffwydi, hanes cyfamod Duw ag Israel, llythyrau'r Apostol Paul, a'r adroddiad am ledaeniad yr eglwys yn Llyfr yr Actau (O'Loughlin, 2012). Dewisir darlleniadau addas ar gyfer prif dymhorau'r *Flwyddyn Eglwysig* ac ar gyfer dyddiau gŵyl y prif seintiau.

Mae rhesymeg fewnol yn y dewis a gynigir ar gyfer yr ewcharist bob Sul, gan y bydd y themâu yn yr Efengyl yn cael eu trafod yn y darlleniad o'r Hen Destament neu'r Newydd ac weithiau yn y ddau. Dyma ffordd arall o addysgu cynulleidfam am ddehongliad o'r Ysgrythur, trwy osod darnau dethol wedi eu gwahanu gan gyfnodau maith o amser ac amgylchiadau ochr yn ochr â'i gilydd fel bod diddordebau cyffredin, a chyflawniad digwyddiadau a ragarwyddwyd mewn cyfnod cynharach mewn cyfnod diweddarach, yn gallu cael eu hamlygu.

Ychydig yn llai amlwg yw'r dyfyniadau uniongyrchol o'r Beibl sy'n gynnwysedig mewn ffurfiau o anerchiadau neu weddiâu. O'r rhain, Gweddi'r Arglwydd yw'r enghraifft fwyaf amlwg (Mathew 6:9-13; Luc 11:2-4). Mae'r cyfarchiad Ewcharistaidd, 'Gras, trugaredd a thangnefedd', wedi ei fenthyca'n *verbatim* o 2 Timotheus 1:2 and 2 Ioan 1:3. Mae mynegiannau eraill o foliant a bonllef, a ddefnyddir yn rheolaidd, yn yr un modd yn dyfynnu'n uniongyrchol - e.e. Y *Sanctus* ('Sanct, Sanct, Sanct' Esea

6:3; Datguddiad 4:8) a'r *Agnus Dei* ('Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd' Ioan 1:29, 36). Yn olaf, gall darnau eithaf swmpus o destun, dyfyniadau byr neu eiriau sengl, gael eu plethu i weddiâu ac yn aml yn darparu'r ysbrydoliaeth ar gyfer eu cyfansoddi. Mae hyn yn arbennig o wir am y ffurf o weddi a adnabyddir fel y *colect*, sy'n cael ei adrodd fel rhan ddechreuol o ddefod yr ewcharist, a hefyd mewn llawer o emynau a chaneuon (e.e. 'Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog' yn seiliedig ar Salm 42).

Fe ddisgrifiodd Louis-Marie Chauvet y ffenomen hon fel 'y Beibl liturgaidd -*the liturgical Bible*' (Chauvet, 1992, tt. 123, 133). Nid yw'n disodli'r dulliau ysgolheigaid traddodiadol o ddehongli'r Ysgrythur; yn hytrach, mae'n gwahodd y gymuned sy'n addoli i ddod yn gymuned sy'n dehongli yng nghyd-destun byw addoliad. Mae Bradshaw (1992) yn ein cynorthwyo i nodi sut y gall y dehongliad hwn ddigwydd trwy ddisgrifio pedair swyddogaeth Ysgrythur yn y gosodiad liturgaidd (nid yw'r categorïau hyn o reidwydd yn gyfyngedig).

- Swyddogaeth *didactig*, trwy'r hon y bydd darllen y Beibl yn addysgu'r addolwyr am hanesion pwysig (e.e. stori'r creu, yr Exodus, cylchoedd Jacob a Dafydd), yn eu cyflwyno i broffwydoliaeth, ac yn eu hymgyfarwyddo â stori Iesu a'u hyfforddi sut i fyw fel cymuned Gristnogol (e.e. trwy lythyrau Paul) ;
- swyddogaeth *kerygmataidd/anamnetaid*, trwy alluogi'r Ysgrythur i lefaru'n broffwydol am addewidion Duw ynghylch iachawdwriaeth, ac i atgoffa'r rhai hynny sy'n ei chlywed o'r ffynonellau a'r dystiolaeth ar gyfer yr addewidion hyn;

Addoli: Derbyn, Datblygu a Byw Traddodiad

- mae swyddogaeth *baracletaidd* yn disgrifio rôl yr Ysgrythur wrth lefaru am anghenion y bobl a ddaeth ynghyd i addoli ar adeg neilltuol ac mewn lle neilltuol (e.e. gwasanaethau angladd, yn y rhai hynny y mae'r darlleniadau yn cael eu dewis oherwydd eu bod yn dweud rhywbeth am yr ymadawedig, neu oherwydd bod ganddyn nhw gydseiniad cysurus penodol ar gyfer y galarwyr; gwaith darlleniadau o'r fath yw cysuro yn hytrach nac addysgu'r athrawiaethau am farwolaeth ac atgyfodiad;
- swyddogaeth *fawlganol (doxological)* yn ymwneud â moli Duw, sy'n gallu bod ar ffurf salm neu gantigl (e.e. Salmu 146 - 150; Luc 1:67-79), neu weddi lawen o flaen neges gyda'r bwriad o annog neu addysgu (e.e. Effesiaid 1:1-8; 1 Pedr 1:3-8).

Byddwn yn clywed yr Ysgrythur yn weithredol mewn litwrgi fel lluosogrwydd o ddeialogau - gyda darnau Beiblaidd eraill; gyda salmu, emynau a chaneuon addoli; gyda phregethu; a chyda'r deinameg annisgwyl ynghlwm wrth unrhyw weithred o addoli (e.e. emosiwn digymell, neu aflonyddwch oddi wrth ymddygiad neu amseru anghonfensiynol). Holi cwestiwn wna'r Ysgrythur, 'Pwy yw Duw i ni heddiw?' Ar yr un pryd, mae rheidrwydd ar ei ddefnydd mewn addoliad i geisio ymwneud gyda'r cysondeb o Dduw trwy amser, sydd wedi bod erioed ac sydd â'i natur yn ddigyfnawid.

Addoli a phrofiad

Ni all ddiwinyddion reoli'r ffordd y mae addolwyr yn profi, er enghraifft, yr ewcharist. Trwy fyfyrddod mwy ffurfiol ar y profiad dechreuol hwnnw y mae cyfranogwyr yn gallu cael eu hyfforddi yn

ystyr yr ewcharist fel rhai sy'n cyfranogi yng ngweithredoedd achubol Crist, ac yn dod yn rhan o'i gorff daearol ei hun, yr eglwys (Ostdiek, 2015, tt. 5, 9). Cynigia'r sacramentau ffurfiau uniongyrchol neilltuol o brofiad trwy eu defnydd o elfennau materol: dŵr ac weithiau olew mewn bedydd; bara a gwin yn yr ewcharist. Mae'r ymwneud corfforol o ran yr addolwyr, trwy gyffwrdd a blasu, yn ogystal â gweld, clywed ac aroglu, yn fath neilltuol, ac nid yw'n syndod i'r ewcharist fod wedi bod yn achlysur, trwy gydol hanes Cristnogaeth, ar gyfer profiad dwys a chyfriniol hyd yn oed. Bu adroddiadau gan addolwyr canoloesol o weledigaethau o'r afrilladau (y wafferi wedi eu cysegru) a oedd yn gwaedu wrth gael eu dyrchafu gan yr offeiriad.

Mae ein dealltwriaeth o weithred litwrgaidd yn dechrau gyda'n cyrff, ac mae pob gweithred o addoliad yn cynnwys y corff i raddau. Hyd yn oed os yw'r stoc draddodiadol o ystumiau (penlinio, sefyll, eistedd, ymgrymu, codi dwylo, ymgroesi) wedi lleihau, mae symudiadau corfforol yn parhau'n fwyaf amlwg mewn ymarfer cyfoes oddi mewn i'r eglwysi carismataidd a Phentecostaidd. Yma gall codi'r dwylo i fyny gyd-fyn â gweddi a chân, neu siglo'r corff, dawnsio a llefaru mewn tafodau (*glossolalia*); ac fe all addolwyr syrthio'n sydyn i'r llawr, neu fabwysiadu osgo ymlaciol ar y llawr er mwyn 'amsugno' presenoldeb Duw (Lindhardt, 2011; Wilkinson & Althouse 2015).

Cysylltau

<http://www.commontexts.org/rcl/>

(Revised Common Lectionary)

<https://www.churchofengland.org/prayer-worship/worship/texts/collects-and-post-communions.aspx>

(Collects of the Church of England)

<https://www.churchofengland.org/prayer-worship/worship/the-liturgical-year.aspx>

(The Christian Liturgical Year)

<https://www.freshexpressions.org.uk/sites/default/files/churchgrowthresearch-freshexpressions.pdf>

(The Church Army Research Unit's Report on Fresh Expressions of Church)

Pwyntiau trafod

1. Pa mor bwysig yw hi fod darlleniadau o'r Ysgrythur yn ateb cyd-destun ac anghenion uniongyrchol addolwyr? A fydddech chi'n gosod y swyddogaeth 'baracletaidd' hon uwchlaw'r dimensiwn addysgol a phroffwydol sy'n perthyn i'r Ysgrythur?
2. Mae gweddi 'ddigymell' llawer o gymunedau an-litwrgaidd yn aml yn ymddangos yn ffurfiol. Pa gasgliadau allwch chi gyrraedd atyn nhw o hyn?
3. Sut mae'r profiadau a rennir gan gymuned sy'n addoli a'r profiad gan unigolion sy'n ymwneud ag addoliad ryngweithio gyda'i gilydd a chefnogi'r naill a'r llall?
4. Yn dilyn myfyrio ar y pynciau sydd wedi cael eu trafod yn yr erthygl hon, sut bydddech chi'n ffurfio eich diffiniadau eich hun o 'addoliad' a 'litwrgi'?

Cyfeiriadau

- Bradshaw, P.F. (1992). The use of the Bible in liturgy: Some historical perspectives. *Studia Liturgica*, 22, 35-52.
- Bradshaw, P.F. (2002). *The search for the origins of Christian worship*. London: SPCK.
- Chauvet, L.-M. (1992). What makes the liturgy biblical? – Texts. *Studia Liturgica*, 22, 121-133.
- Gordon-Taylor, B. (2013). Liturgy. In *The Study of Liturgy and Worship* (pp. 12-20). Eds. J. Day & B. Gordon-Taylor, London: SPCK.
- Lindhardt, M. (Ed.) (2011). *Practicing the Faith: The ritual life of Pentecostal-Charismatic Christians*. New York: Berghahn Books.
- Littlefield, P. (2010). Emerging expressions: How social trends are impacting the Christian church. Sheffield: Church Army Research Unit.
(<http://churcharmy.org.uk/Publisher/File.aspx?ID=138658>)
- McGowan, A.B. (2014). *Ancient Christian worship: Early church practices in social, historical and theological perspective*. Grand Rapids, MI: Baker Academic.
- O'Loughlin, T. (2012). *Making the most of the lectionary: A user's guide*. London: SPCK.
- Ostdiek, G. (2015). *Mystagogy of the eucharist*. Collegeville, MN: Liturgical Press.
- Weil, L. (2013). Worship. In *The Study of Liturgy and Worship* (pp. 3-11). Eds. J. Day & B. Gordon-Taylor, London: SPCK.
- Wilkinson, M., & Althouse, P. (2015). The embodiment of prayer in charismatic Christianity. In *A Sociology of Prayer* (pp. 153-167). Eds. G. Giuseppe & L. Woodhead, Farnham: Ashgate.
- Wolterstorff, N. (1995). *Divine discourse: Philosophical reflections on the claim that God speaks*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Wolterstorff, N. (2015). *The God we worship*. Grand Rapids, MI: Eerdmans.

Ar hyn o bryd mae'r Dr Bridget Nichols yn Gaplan Lleyg a Chynorthwydd Ymchwil i Esgob Ely. Astudiodd ym mhrifysgolion Cape Town, Witwatersrand a Durham a bu'n addysgu litwrgi ac addoliad ym Mhrifysgol Durham a Choleg Sarum, Salisbury. Cynnwys ei chyhoeddiadau: *The Collect in the Churches of the Reformation* (Llundain Gwasg, 2010), *Literature in Christian perspective: Becoming faithful readers* (Llundain -Darton, Longman & Todd, 2000) a *Liturgical hermeneutics: Interpreting liturgical rites in performance* (Peter Lang, 1996).

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar Nicholas Thanissaro

Mae dadleuon hanesyddol tanbaid yn amgylchynu'r cysyniad o 'wir hunan' mewn Bwdhaeth a'i berthnasedd i oleuedigaeth. Mae gwrthwynebwyr y cysyniad yn ystyried 'gwir hunan' yn dwyllwr sy'n deillio o fyd-olwg Hindŵaidd. Mae'r erthygl hon yn cyflwyno 'gwir-hunan' neu natur-bwdha fel allwedd bosibl i ddeall y gwahaniaethau rhwng natur ffenomenau yn y cylch o fodolaeth a Nirvana.

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS1/2 ER: Cyflwyniad i Grefyddau'r Dwyrain (AS), Adran A: Cyflwyniad i Fwdhaeth; RS3 ER: Astudio Crefyddau'r Dwyrain (A2), Adran A: Astudio Bwdhaeth, 2. Goleuedigaeth; hefyd RS4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol (A2) profiad crefyddol (mewn Bwdhaeth)

Cyflwyniad

Y ddadl ynghylch Nirvana

Nirvana yw'r nod ymarfer ar gyfer y rhan fwyaf o Fwdhyddion - hafan drosgynnol y tu allan i'r cylch o fodolaeth (*samsāra*) sy'n gallu gwrthsefyll marciau bodolaeth (*samaññalakkhaṇa*). O ystyried bod hwn yn fan mor bwysig i Fwdhyddion, fe allai rhywun o'r tu allan ddisgwyl y byddai Nirvana'n cael ei esbonio'n amlwg mewn Bwdhaeth, gyda diffiniad y byddai'r holl Fwdhyddion yn gallu cytuno arno. Yn anffodus, i fyfyrwyr Bwdhaeth, mae cymhlethdodau sy'n atal symleiddio, ac mae'r trosolwg syml hwn, yn hytrach nac yn hawlio eglurder lle nad oes eglurder, yn ceisio cyflwyno rhai o gymhlethdodau'r drafodaeth sy'n bodoli ymhlith Bwdhyddion ynghylch

nodweddion Nirvana. Mae rhai testunau Bwdhaidd yn mynd mor bell â honni nad yw Nirvana'n bodoli, ac mai dim ond trosiad ydyw am fod wedi dod i ddiwedd amhureddau meddyliol, neu sy'n fan lle gall hyd yn oed anifeiliaid fynd iddo. Mae'r safbwyntiau hyn yn tueddu i berthyn i ddatblygiadau athronyddol Bwdhaeth ddiweddarach; yn yr erthygl hon byddaf yn cyfyngu fy hun i'r drafodaeth mewn Bwdhaeth gynnar.

Pam roedd y Bwdha ambell dro'n amhenodol yn ei addysgu

Mewn Bwdhaeth, fe fydd athrawiaethau moesegol yn aml yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol iawn i fetaffiseg. Lle mae dysgeidiaethau moesegol fel y Llwybr Wynthplyg Nobl yn aml yn cael eu

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar

hegluro'n glir a chyda digon o fanylder, mae dysgeidiaeth ar fetaffiseg yn aml yn ddim llai na chryptig. Wrth ymdrin â phynciau metaffisegol, byddai'r Bwdha yn aml yn fwriadol yn *osgoi* rhoi ateb uniongyrchol neu ateb cynhwysfawr - nid oherwydd am na allai fod yn glir, ond oherwydd ei fod yn gwybod os na fyddai'r rhai fyddai'n ymholi wedi ymarfer i lefel digon uchel, fe fydden nhw'n camddeall ei ateb. Byddai dysgeidiaethau metaffisegol y Bwdha'n gadael bylchau i fyfyrwyr eu llenwi'n wrthrychol trwy eu harfer eu hunain.

Mae'r diffyg manylder hwn yn gleddyf deufiniog, oherwydd, er ei fod yn diogelu yn erbyn dogmatiaeth ymhlith y rhai hynny sydd heb fod eto wedi cyrraedd profiad uniongyrchol o fetaffiseg yn eu harfer eu hunain, mae hefyd yn gadael lle ar gyfer dehongli. Ar gyfer ymarferwyr, mae *rhai* canllawiau'n ddefnyddiol, pe bai ond i'w hysbrydoli gyda'r hyder i ymarfer nes byddan nhw'n gallu adnabod Nirvana drostyn nhw eu hunain. Fe allai rhoi gormod o ganllawiau, fodd bynnag, fod yn wrthgynhyrchiol gan y byddai ymarferwyr yn myfyrio gyda syniadau rhagdybiedig o'r hyn y maen nhw i fod i'w gyrraedd. Wrth astudio Nirvana, mae'n ddoeth dechrau gydag arweiniad o'r ychydig dystiolaeth ysgrythurol y *gwnaeth* y Bwdha ei gadael ar ôl.

Nirvana

Dwy lefel Nirvana

Mae i'r gair 'Nirvana' (*nibbāna* yn yr iaith Pali) amrywiaeth o ystyron. Gellir cyfieithu Nirvana fel 'diffodd' (amhureddau meddyliol), neu fe all olygu 'dianc' (rhag dioddefaint). O ystyried bod lle ar gyfer dehongli yn achos y gair 'Nirvana', mae Bwdhyddion yn ceisio ei egluro drwy wahaniaethu rhwng Nirvana fel cyflwr meddwl a Nirvana fel teyrnas o fodolaeth (It.38).

Nirvana fel cyflwr meddwl (*sa-upādisesanibbāna*) yw *profiad* person byw o Nirvana - hynny yw, nid oes rhaid i'r person sy'n ei gyrraedd fod wedi marw cyn ei gyrraedd. Mae ef neu hi yn cyffwrdd â Nirvana yn eu myfyrdod ar y pwynt lle maen nhw wedi puro eu meddwl o'r holl amhureddau meddyliol, ond mae eu pum agreg (*khandha*) yn arhau'n gyfan. Bydd natur-bwdha¹ yn amlygu y tu mewn i unigolyn o'r fath, gan drosglwyddo iddyn nhw yr un hapusrwydd fel pe bydden nhw o ddifri y tu mewn i Nirvana fel teyrnas o fodolaeth - ond maen nhw'n dal i fod yn 'fyw' yn eu corff dynol.

Teyrnas y tu allan i'r corff a'r meddwl yw Nirvana fel teyrnas o 'fodolaeth'² (*anupādisesanibbāna*), a elwir weithiau yn 'Nirvana ar ôl marwolaeth' - *posthumous Nirvana*, oherwydd mai dim ond ar ôl diwedd ei bum agreg am y tro olaf y gall r un a fydd yn cyrraedd fynd yno (gan na fyddan nhw'n cael eu haileni eto). Y natur-bwdha y maen nhw wedi ei gyrraedd fel cyflwr meddwl yw'r cyfrwng sy'n eu cario (yr hyn sy'n weddill ohonyn nhw) i Nirvana fel teyrnas o fodolaeth.

Wrth siarad am Nirvana, fe *wnaeth* y Bwdha ddatgan bod Nirvana yn bodoli, ac mai dyna yw diwedd pob dioddefaint, ond mae ei ddisgrifiad o nodweddiion Nirvana yn cynnwys cyfres o drafodaethau (am y rhesymau a grybwyllwyd eisoes) y manylir arnyn nhw yn y Pathama Nibbāna Sutta (Ud.80):

¹ Also sometimes referred to as *dhammakāya* or the 'body of enlightenment'

² Some Buddhists might quibble here, because strictly speaking beings that enter Nirvana no longer exist in a way recognisable to the cycle of existence (*samsāra*).

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar

O! Monks! There exists a sphere in which earth, water, fire, air, sphere of infinity of space, sphere of infinity of consciousness, sphere of nothingness, sphere of neither perception nor non-perception, this world, the next world, the moon, the

sun have no part. O! Monks! I do not say that that sphere has coming, going, existence, arising, falling away, in a place that has no abode, without feeling . . . this, is the end of suffering.

Nodweddion Nirvana

Mae un rhan o'r drafodaeth ynghylch Nirvana'n ymwneud â'r graddau y mae'n rhannu nodweddion gyda'r cylch o fodolaeth (*samsāra*) - hynny yw, y tri Marc Bodolaeth.

Cymharu Nirvana a Samsāra yn nhermau'r Marciau Bodolaeth

| Ffenomenau Samsāric | Ffenomenau Nibbānic |
|---|---|
| amharhaol dioddefaint nid /an hunan | parhaol hapusrwyddy hunan...? |

Fel mae wedi ei grynhoi yn y tabl uchod, ceir tystiolaeth mewn ysgrythurau Bwdhaidd cynnar i gefnogi'r syniad bod Nirvana'n barhaol yn hytrach na bod yn amharhaol (*aniccā*) (Nidd II.56): '*Nirvana cannot be taken away or changed*'. Ni ellir dileu Nirvana na'i newid. Mae ysgrythurau Bwdhaidd cynnar hefyd yn honni nad yw unrhyw beth sy'n barhaol yn cael ei nodweddu bellach gan ddioddefaint (*dukkha*) na 'nid-hunan' (*anattā*) (S.iii.22):

Whatever thing is (of the nature of) impermanence is also (of the nature of) suffering. Whatever thing is (of the nature of) suffering is also (of the nature of) no/not-self.

Ar ben hynny, fe ddywedodd y Bwdha'n benodol fod Nirvana o natur hapusrwydd (Dhp.57): '*Nirvana is the highest happiness*', Nirvana yw'r hapusrwydd pennaf. Dywedodd yn benodol felly bod

Nirvana o natur hapusrwydd a sefydlogrwydd. Fodd bynnag, dim ond awgrymu y mae bod Nirvana o natur 'hunan' (*atta*) yn hytrach na 'nid-hunan' (*anattā*). Hyd yn oed heddiw, mae'r ysgolheigion academaidd Gorllewinol a Dwyreiniol yn parhau i drafod y mater hwn. Mae'r materion sy'n ffurfio rhan arall y drafodaeth yn cynnwys y cwestiwn a oedd y Bwdha'n addysgu am y 'gwir hunan' (natur-bwdha), ac os felly, beth fyddai 'gwir hunan' yn ei olygu o ddifri i Fwdhyddion.

Y ddadl

A yw 'gwir hunan' (natur-bwdha) ymhlith dysgeidiaethau'r Bwdha?

Mae rhai Bwdhyddion yn credu bod 'gwir hunan' yn gysyniad Bwdhaidd defnyddiol tra bod eraill yn anghytuno. Mae'n ymddangos bod mwy o ran nifer o gynigwyr o blaid 'gwir hunan' mewn Bwdhaeth na gwrthwynebwy'r. Ymhlith eiriolwyr o'r 'gwir hunan' y mae

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar

ysgolheigion Gorllewinol o fri fel Caroline Rhys Davids (Collins, 1982, t 7) ac Isaline B. Horner (Harvey, 1995, t 17). Roedd y ddwy'n ysgolheigion o ymroddiad ac arbenigedd digyffelyb mewn astudiaethau ysgrythurau Bwdhaidd. Mae'r ddwy wedi chwarae rôl bwysig wrth lunio cyhoeddiad y Pali Text Society (PTS) o'r Pali Tipitaka, a gofnodir mewn sgrïpt Rhufeinig, a dyma'r argraffiad o'r Pali Tipitaka sy'n cael ei dderbyn gan ysgolheigion ledled y byd fel y mwyaf awdurdodol. Ymhlith ysgolheigion eraill sy'n dal yr un farn y mae Christmas Humphreys (1959, t. 88) ac Edward Conze (1962, t. 39). Mae ysgolheigion o'r fath yn cytuno ar ddwy brif ddadl: yn gyntaf na wnaeth y Bwdha erioed *wadu* bodolaeth y gwir hunan (*atta*), ac yn ail bod dysgeidiaeth wreiddiol y Bwdha'n awgrymu bod y gwir hunan yn bodoli yn y cyflwr hwnnw sy'n uwch na lefel y Pum Agreg (*khandā*). Mae ysgolheigion o'r fath yn rhesymu na wnaeth y Bwdha erioed gyfeirio'n uniongyrchol at fodolaeth gwir hunan oherwydd fe allai rhai nad ydyn nhw wedi ceisio ymarfer myfyrdod drostyn nhw'u hunain gamddeall y 'gwir hunan' mewn Bwdhaeth a'i fod yr un fath â *paramātmā* mewn Hindwaeth. Er hynny, mae ysgolheigion eraill, fel David Kalupahana (1994, tt 69-72.) sy'n honni nad oes y fath beth yn bod â 'gwir hunan' yn nysgeidiaeth y Bwdha.

Beth allai 'gwir hunan' ei olygu i Fwdhyddion

Mae'r anhawster o ddehongli ysgrythur Fwdhaidd yn codi oherwydd bod yr un termau'n gallu bod â gwahanol ystyr yn yr Ysgrythurau yn ôl y cyd-destun. Bob tro y byddai'r Bwdha'n pregethu roedd y addasu ei ddysgeidiaeth yn ôl cymeriad ac anghenion y gwrandawr. Felly mae'r defnydd o dermau yn yr

ysgrythurau, hyd yn oed yr un rhai, yn gallu bod â channoedd o wahanol ystyr. Nid yw'r geiriau '*atta*' a '*anattā*' yn eithriad. Dywed rhai bod y gair '*atta*' yn golygu 'hunan' yn yr un modd ag mae '*ātman*' yn golygu 'hunan' yn yr Upanishadau. Mae Hindwïaid yn addysgu bod 'hunan' y tu mewn i bob un ohonom, a fydd yn cael ei ail-uno y pen draw gyda'r Brahma, y Bod Mawr (*paramātmā*). Mae Bwdhyddion yn ofni, os ydyn nhw'n derbyn 'hunan' yna fe fyddan nhw'n ildio i Hindwïaeth. Mewn gwirionedd, mae'r ofnau hyn yn ddi-sail oherwydd bod i'r gair '*atta*' lawer o ystyrion posibl. Gall olygu 'hunan' a ddychmygir' (ego) neu'r cysyniad uwch o 'fi' a 'fy' ar gyfer angel neu dduw, sydd yn ansoddol yn wahanol iawn. Hefyd, mae'r gair '*atta*' yn gallu golygu 'gwir hunan' mewn ystyr eithaf, o'r math hwnnw y mae'r Bwdha'n argymhell ei ddilynwyr i'w fabwysiadu fel 'ynys' neu 'loches' (D.ii.72):

May you all take your self as your island.

May you take yourself as a refuge.

Take no other thing as your refuge.

May Dhamma be your island.

May Dhamma be your refuge.

Take no other thing as your refuge.

Yn yr achos hwn, mae'n amlwg bod i'r gair '*atta*' ystyr gwahanol i'r gair '*atta*' fel y'i defnyddiwyd yn achos yr 'ego' neu'r gair '*atta*' a ddefnyddir gan Hindwïaid. Felly, wrth astudio'r Tipitaka, mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng y diffiniadau yn y ddau gyd-destun gwahanol. Mae angen yr un gofal gyda'r gair '*anattā*'. Mae rhai sy'n credu bod y gair '*anattā*' yn golygu 'heb fod yn hunan' (h.y. anhunanoldeb) ac eraill sy'n credu ei fod yn golygu 'nid-hunan' (h.y. nad yw'n hunan). Mae'n yr un fath ag edrych

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar

ar y gair '*manusso*' sy'n golygu 'person'; mae'r gair '*amanusso*' yn bodoli hefyd - ond mae'n tueddu i gyfeirio at fodau nad ydyn nhw'n ddynol, nid diffyg bod yn berson.

Felly, fe fyddai'n bosib ystyried y rhagddodiaid sy'n gyfatebol i'r rhagddodiad Saesneg '*a-/an-*' i olygu '*non-*' yn hytrach na '*no-*'. Mae hyn yn rhoi persbectif newydd pan fyddwn yn edrych ar y defnydd o'r gair 'hunan' - er enghraifft, pan addysgai'r Bwdha nad yr 'hunan' yw'r Pum Agreg, yr hyn roedd yn ei olygu yw bod y gwir 'hunan' yn rhywle arall, y tu allan i Pum Agreg. Felly, byddai'n ymddangos fod y Bwdha'n

addysgu bod y gwir 'hunan' yn lloches i unigolyn, ac y gallai'r unigolyn gyrraedd y gwir 'hunan' drwy arfer y Llwybr Wythplyg Nobl.

Nirvana: Yn hygyrch i bawb

Nid yw Bwdhaeth yn grefydd gyfyngedig. Gall unrhyw un sydd wedi coleddu cymaint o weithredoedd da ag y gallai'r Bwdha neu'r arahants, yna fel y rhain, fe allan nhw fynd i mewn i Nirvana. Fe fydd unrhyw un sy'n ymarfer y Llwybr Wythplyg Nobl yn gywir, gan gadw'r Praeseptau, ac ymarfer myfyrdod a chronni doethineb, yn cyrraedd Nirvana eu hunain yn y pen draw.

Geirfa

Agregau - *Aggregates* (khandha Pali, skandha Sansgrit) yw cydrannau seico-gorfforol bod byw yn cynnwys y 'ffurf' gyfansoddol gorfforol (y corff), a chyfansoddion y meddwl, 'teimlad', 'canfyddiad', 'ffurfiannau meddyliol' ac 'ymwybyddiaeth'. Fe fydd marwolaeth sy'n ymwneud â'r corff a'r meddwl yn ymwahanu, ambell dro yn cael ei ddi-bersonoli mewn Bwdhaeth drwy gyfeirio ato fel 'diwedd yr agregau' (*breaking up of the aggregates*).

Pali: iaith y llenyddiaeth gynharaf sy'n bodoli yn ymwneud â Bwdhaeth, fel a gasglwyd yn y Tipitaka, a iaith sanctaidd Bwdhaeth Theravāda.

Cymdeithas Text Pali - *Pali Text Society* yw cymdeithas cyhoeddi testunau a sefydlwyd yn 1881 gan TW Rhys Davids ym Mhrydain i feithrin a hyrwyddo astudio testunau Pali.

Upanishadau - *Upanishads*: casgliad o destunau sy'n cynnwys rhai o gysyniadau athronyddol canolog Hindŵaeth.

Y Ddadl ynghylch Goleuedigaeth mewn Bwdhaeth Gynnar

Cysylltau

Rhai enghreifftiau o farn Fwdhaidd ynghylch goleuedigaeth sydd fwy neu lai yn gynrychioliadol y drefn honno o enwadau Theravāda (llythrennol), Mahāyāna a Vajrayāna:

<http://bodhimonastery.org/what-does-it-mean-to-be-enlightened.html>

(Bhikkhu Bodhi ar What does it mean to be enlightened?)

<http://bodhimonastery.org/what-does-it-mean-to-be-enlightened.html>

(Kusala Bhikshu ar *Buddhist Enlightenment versus Nirvana*)

<http://www.matthieuricard.org/en/blog/posts/what-does-buddhism-mean-by-enlightenment>

(Matthieu Ricard ar *What does Buddhism mean by enlightenment?*)

Pwyntiau trafod

1. Pa safbwyntiau sy'n cael eu cynnal mewn Bwdhaeth ynghylch pa fath o hunan sydd mewn gwirionedd yn dod yn oleuedig?
2. Beth mae'r ddadl hon yn ei ddweud wrthy ch ynghylch yr anghytundeb mewn Bwdhaeth rhwng arbenigwyr ysgrythyrol a'r rhai sydd â doniau myfyrio? A oes enghreifftiau o'r un math o anghytuno'n bodoli mewn crefyddau eraill?
3. Y dewis arall i esboniadau sy'n seiliedig ar yr 'hunan' am y llwybr Bwdhaidd yw'r trosiad o 'fflam' anhunanol yn cael ei phasio o un gannwyll i'r llall (yn cynrychioli oesoedd) ac yn y pen draw yn diffodd yn Nirvana. Yn dilyn y gysyniadaeth hon, pa fath o Nirvana y byddech chi'n disgwyl dod o hyd i ddisgrifiad ohoni yn yr Ysgrythurau Bwdhaidd?
4. Sut y byddai'n bosib esbonio natur-bwdha a Nirvana er mwyn eu gwahaniaethu, yn y drefn honno, oddi wrth yr *ātman* a'r *paramātman* Upanishadig mewn ffordd a fyddai'n bodloni Hindwiaid a Bwdhyddion fel ei gilydd?

Cyfeiriadau

Collins, S. (1982). *Selfless persons: Imagery and thought in Theravada Buddhism*. Cambridge: Cambridge University Press.

Conze, E. (1962). *Buddhist thought in India*. London: Allen & Unwin.

Harvey, P. (1995). *Selfless mind: Personality, consciousness and*

Nirvana in Early Buddhism.
Richmond: Curzon Press.

Humphreys, C. (1959). *Buddhism*.
Harmondsworth: Penguin.

Kalupahana, D. J. (1994). *A history of Buddhist philosophy*. Delhi: Motilal Banarsidass.

Confensiynau ar gyfer dyfynnu testunau sylfaenol Bwdhaeth gynnar

Fel gyda dyfyniadau Beiblaidd, fe fydd gwaith academaidd Bwdhaidd, wrth gyfeirio at destunau sylfaenol, yn gongfensiynol yn defnyddio cyfeirnodau sydd heb fod yn arddull Harvard. Mae'r byrfoddau cytunedig yn cyfeirio at gyfrolau o argraffiad Tipiṭaka iaith Pali y PTS. Mae'r rhifau Rhufeinig yn cyfeirio at rifau cyfrolau a rhifau'r Arabaidd yn cyfeirio at rifau tudalennau. Mae'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr erthygl hon fel a ganlyn:

D = Dīgha Nikāya

Dhp = Dhammapada

It = Itivuttaka

Nidd II = Cullaniddesa

S = Saṃyutta Nikāya

Ud = Udāna

Gall myfyrwyr sydd â diddordeb ddod o hyd i restr gynhwysfawr o fyrfoddau testunol Bwdhaidd cytunedig ar http://www.palitext.com/subpages/PTS_Abbreviations.pdf

Mae Phra Nicholas Thanissaro yn ymchwilydd doethurol yng Nghanolfan Astudiaethau Addysg Prifysgol Warwick ac mae newydd gyflwyno traethawd PhD ar grefyddoldeb a hunaniaeth Bwdhyddion yn tyfu i fyny ym Mhrydain. Yn fynach Bwdhaidd sy'n perthyn i'r sefydliad Dhammakaya Foundation, mae'n meddu ar radd meistr o Brifysgol Warwick a Thystysgrif Addysg i Raddedigion o Brifysgol Fetropolitan Manceinion.

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

Paul Wilson

Mae'r erthygl hon yn cyferbynnu'r Diwygiad Protestannaidd â'r Diwygiad Radical (Ailfeddydiaeth).

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS1/2 CHR: Cyflwyniad i Gristnogaeth (AS), 2. Gwreiddiau Amrywiaeth Gristnogaeth: Y Diwygiad Protestannaidd.

Cyflwyniad

Wrth i mi ysgrifennu (Rhagfyr 2015), mae'r Comisiwn ar Grefydd a Chred ym Mywyd Cyhoeddus Prydeinig, newydd gyhoeddi ei adroddiad 'Living with Difference.' Pennawd y Telegraph yw 'Britain is no longer a Christian country and should stop acting as if it is, says judge.'¹

Pa un a wnaeth y Comisiwn wahaniaeth digonol ai peidio rhwng plwraliaeth fel ffaith gymdeithasegol ac fel safbwynt athronyddol, bu'n fodd i amlygu rhai materion diddorol. Ar yr ochr ymarferol, mae lle'r esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi a lle Archesgob Caergaint yng nghoroni'r brenin nesaf yn amlygu'r cysylltiad rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth, fel y mae rolau'r brenin neu frenhines a'r Prif Weinidog wrth ddewis yr Archesgob. Ar yr ochr ddiwinyddol, mae ymateb Eglwys Loegr i'r adroddiad yn rhagdybio'r cwestiwn a wnaeth lesu fwriadu dechrau crefydd newydd o gwbl, heb sôn a fwriadodd iddi fod â pherthynas â'r wladwriaeth ai peidio.

Y Byd Cristnogol

Gelwir y berthynas rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth yn Fyd Cristnogol (*Christendom*), ac mae'n tarddu o'r bedwaredd ganrif, pan roddodd yr Ymerawdwr Rhufeinig Cystennin adnabyddiaeth gynyddol i Gristnogaeth yn yr Ymerodraeth ac, ar yr un pryd, roi i'r Ymerawdwr ddylanwad cynyddol ym musnes yr eglwys. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif, mewn ymdrech i uno'r eglwys a'r wladwriaeth, roedd Theodosius wedi diffinio'r eglwys fel y rhai 'mewn cymundeb ag esgobion Rhufain ac Alexandria - *in communion with the bishops of Rome and Alexandria*,' gan ychwanegu at hyn trwy osod pwysau ar Gristnogion rhydd-feddyliol i gydymffurfio ac ar baganiaid i droi at grefydd.

¹Gweler

<https://corablivingwithdifference.files.wordpress.com/2015/12/living-with-difference-community-diversity-and-the-common-good.pdf> a <http://www.telegraph.co.uk/education/12036287/Britain-is-no-longer-a-Christian-country-and-should-stop-acting-as-if-it-is-says-judge.html>

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

'Together, these measures established Christianity, legally defined, as the official religion of the Empire' (Greenslade, 1954, t. 29, dyfynnwyd yn Murray, 2004, t. 40).

Nid yw'n syndod felly i'r eglwys dyfu, ac yn y flwyddyn 529 cyhoeddodd yr Ymerawdwr Iwstinianian orchymyn yn gwneud troi at Gristnogaeth yn orfodol i bawb ac eithrio Iddewon (Murray, 2004, t. 54). Roedd babanod i'w bedyddio trwy gyfraith, gan gydnabod ymostyngiad i'r wladwriaeth gydag aelodaeth o'r eglwys. Er bod yr Ymerodraeth Rufeinig yn edwino, llwyddodd Cristnogaeth, wrth ledaenu tua'r gogledd at gyn-diroedd y barbariaid, i ddal Ewrop ynghyd. Sefydlwyd hyn ar ffurf yr Ymerodraeth Rufeinig Santaidd yn y flwyddyn 800.

Mae'r ddadl yn parhau pa un ai a oedd y symudiad gan Cystennin yn rhywbeth da i'r eglwys neu'n drychineb. Y naill ffordd neu'r llall, parhaodd y Byd Cristnogol yng nghanolbarth Ewrop am dros fileniwm ar ffurf Catholigiaeth ganoloesol, a pharhawn i weld ei gweddillion hyd heddiw.

Diwygiad yn yr Almaen

Fe fyddai'n hawdd dychmygu bod arloeswyr y Diwygiad Protestannaidd, fel Luther a Calvin, wedi ymdrechu i ddatgymalu'r Byd Cristnogol, gan roi lle i eglwys fyddai'n rhydd o reolaeth y wladwriaeth. Ond nid dyna'r achos. Mae'r ffaith eu bod yn cael eu hadnabod fel y *Diwygwyr Ynadol - Magisterial Reformers* yn tynnu sylw at y modd yr oedd y diwygwyr Lutheraidd a Chalfinaidd yn perthnasu â'r awdurdodau seciwlar, fel tywysogion, ynadon, neu gynghorau dinesig - *'draws attention to the manner in which the Lutheran and Calvinist reformers related to secular authorities, such as princes, magistrates, or city councils'* (McGrath, 1998, t. 159).

Pan oedd yn ddydd ifanc, fe ddaeth Martin Luther yn fynach a chafodd ei anfon i addysgu yn ninas Wittenberg sydd yn y rhan o Ewrop a elwir yn awr yr Almaen. Roedd ei weithred honedig o hoelio'r Naw Deg a Pum Pwnc ar ddrws Eglwys y Brifysgol (a fyddai'n gyfwerth â gosod neges ar *Facebook* ein dyddiau ni) wedi ei bwriadu i ddechrau dadl, ond fe newidiodd hyn hanes. Ar y dechrau roedd yn awyddus i herio gwerthiant maddeuebau neu bardwn gan yr eglwys, ond yn y diwedd cafodd ei argyhoeddi bod y system gyfan yn llygredig. Yn dilyn cael ei esgymuno gan y Pab, cafodd ei gondemnio gan yr Ymerawdwr Rhufeinig Sanctaidd, gyda chynghrair yr eglwys-a'r-wladwriaeth yn datgan ei fod yn heretic a herwr. Byddai'n sicr o fod wedi cael ei ddienyddio pe na fyddai wedi cael ei achub gan ei ffrind Frederick, etholydd Sacsoni, a'i guddio mewn castell, ac fe roddodd hyn amser iddo gyfieithu'r Testament Newydd i'r Almaeneg.

Lledaenodd ysgrifau Luther yn gyflym, gan annog offeiriaid i dorri'n rhydd oddi wrth eu ffyddlondeb tuag at y Pab. Anogodd hefyd dywysogion Almaenig i dorri'n rhydd oddi wrth yr Ymerawdwr. Roedd y Diwygiad yn yr Almaen yn dibynnu ar y ddau beth hwn yn digwydd mewn un dywysogaeth. Byddai'r tywysog yn datgan ei hun o blaid neu yn erbyn Luther, byddai'r offeiriaid yn dilyn y tywysog, a byddai'r bobl yn dilyn yr offeiriaid. Felly roedd rhyddid crefyddol - Protestant neu Gatholig - ar gyfer tywysogion yn unig (yn cymryd sylw o'r consensws ymhlith yr offeiriaid, o bosib). Roedd pawb arall yn dilyn y drefn. Yn awr roedd dwy ffurf ar y Byd Cristnogol.

Cafodd athrawiaeth ganolog Luther o *gyfiawnhad trwy ffydd* (ymateb personol i Dduw) ei lledaenu yn ei ysgrifau a'i phregethu yn yr eglwysi, ond ffactor

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

daearyddol yn unig oedd i gyfrif am y modd y deuai pobl yn Lutheriaid yn hytrach na Chatholig. Adnabu Luther bod yna 'wir eglwys', oedd yn cynnwys pobl oedd wedi eu cyfiawnhau trwy ffydd, ond bod hyn yn anweledig - ni allai unrhyw un ddweud beth oedd cyflwr y gras a berthynai i galon unigolyn arall. Ond fe gredai ef y dylai eglwys weledig fodoli hefyd, yn cyfarfod er mwyn clywed pregethau a derbyn y sacramentau. Mae'r syniad hwn o ddwy eglwys - y weledig a'r anweledig - yn dyddio'n ôl mor bell â dyddiau Awstin Sant. Roedd yr ymarfer parhaol o fedyddio babanod yn bytholi'r syniad bod pawb yn Gristnogion, gan wneud y syniad o dröedigaeth yn ddiangen. Bu farw Luther yn ddyd siomedig, gan fynegi fod pobl wedi mynd yn fwyfwy ddifater tuag at grefydd a bod y rhagolwg moesol yn fwy truenus fyth - *'stating that the people had become more and more indifferent towards religion and the moral outlook was more deplorable than ever.'*

Between 1522 and 1527 Luther repeatedly mentioned his concern to establish a true Christian church, and his desire to provide for earnest Christians who would confess the gospel with their lives as well as with their tongues. He thought of entering the names of these 'earnest Christians' in a special book and having them meet separately from the mass of nominal Christians, but concluding that he would not have sufficient of such people, he dropped the plan. (Bender, 1944)

Mae'n syndod i lawer nad oedd y Diwygwyr yn debyg i efengylwyr modern. Mudiad Diwygiad oddi mewn i'r Byd Cristnogol oedd y Diwygiad Lutheriaid yn, ac nid mudiad cenhadol mewn

unrhyw fodd gan na allai weithredu dim ond lle'r oedd y wladwriaeth yn Lutheriaid. Gallai Stephen Neill, er ei fod yn ysgrifennu am Loegr, fod yn disgrifio unrhyw wlad yn Ewrop bron pan oedd yn gofyn i ni ragweld pentref nodweddiadol o fwy na 400 o breswylwyr, lle'r oedd pawb yn Gristnogion bedyddiedig, wedi eu gorfodi, fwy neu lai, i fyw bywydau Cristnogol dan drem barhaus y person plwyf a'r sgweier. Yn y fath gyd-destun nid oes fawr o ystyr i 'efengyliaeth', am fod pawb mewn rhyw fodd eisoes yn Gristnogol, ac angen ddim mwy na chael eu gwarchod/diogelu rhag ffaeidd mewn crefydd a drygioni mewn bywyd -

'envisage a typical village of not more than 400 inhabitants, where all are baptized Christians, compelled to live more or less Christian lives under the brooding eye of parson and squire. In such a context 'evangelization' has hardly any meaning, since all are in some sense already Christian, and need no more than to be safeguarded against error in religion and viciousness in life. (Neill, 1968, t. 75)

Diwygiad yn y Swistir

Gweinidog yn y brif eglwys yn ninas Zürich oedd Ulrich Zwingli, un a oedd yn cydoesi â Luther yn y Swistir. Gyda'r bwriad o ddiwygio'r eglwys yn ogystal â'r ddinas, fe bregethodd yn erbyn gweithredoedd megis trin yr offeren fel aberth ac offeiriaid yn cymryd meistresi. Ar y dechrau roedd Zwingli yn fwy radical na Luther, yn hyrwyddo dileu'r offeren a bedydd babanod yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, dibynnai ar gyngor y ddinas i benderfynu ar gyflymdra unrhyw newid, ac roedd y cyngor yn gweithio'n rhy araf yng ngolwg rhai o ddilynwyr Zwingli, oedd yn meddwl y dylai ei bod yn bosib i Gristnogion ddilyn egwyddorion

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

Beiblaidd heb ganiatâd yr awdurdodau dinesig. Mewn anghydfod rhwng Zwingli a'i ddilynwyr mwy radical, ym mis Ionawr 1525, barnodd y cyngor o blaid Zwingli, gan adael i'r radicaliaid ddewis cydymffurfio, ymadael â Zürich neu wynebu carchar (Estep, 1996, t. 13). Yn ddiweddarach yn y mis hwnnw fe gyfarfu grŵp bychan o'r Cristnogion radical hyn yng nghartref Felix Manz yn Zürich, wedi dod i'r casgliad nad oedd bedydd babanod yn ddilys, gan na allai plant ymrwymo eu hunain i ddilyn Crist mewn bywyd. Roedd rhai o'r radicaliaid wedi herio'r wladwriaeth trwy beidio â bedyddio eu plant. Ond yn awr fe aethon nhw â hyn i ben draw ei gasgliad rhesymol trwy ddatgan bod eu bedydd hwy eu hunain yn eu plentyndod yn annilys. Gwnâi hyn iddyn nhw fod yn 'anfedyddiedig' ac felly'n gymwys i gael eu bedyddio. Gofynnodd George Blaurock i Conrad Grebel ei fedyddio ef, mewn gweithred o ufudd-dod (i Grist) ac anufudd-dod (i gynghrair yr eglwys â'r wladwriaeth), ac fe aethon nhw ati nes bod pob un ohonyn nhw wedi cael eu bedyddio.²

Fel datganiad 'Facebook' Luther, bu hyn hefyd yn ddigon i esgor ar wrthdrawiad enfawr. Fe wnaeth eu beirniaid - yn Gatholig a Phrotestant – eu galw'n 'Ailfedyddwyr' neu'n ôl-fedyddwyr. Ond nid bedydd *per se* oedd y prif fater i'r Ailfedyddwyr, yn hytrach hawl a dyletswydd Cristnogion i ddilyn Crist yn unol â'r Ysgrythur a chydwybod heb gyfeirio at y wladwriaeth (na'r gynghrair rhwng y wladwriaeth a'r eglwys) nac ymyrraeth o'r tu hwnnw. Doedden nhw ddim yn wrthwynebus i'r wladwriaeth fel y cyfryw, ond roedden nhw o blaid rhyddid crefyddol. Cofleidiodd cyngor dinas Zürich, o'i ran ei hun, ragdybiaeth Byd Cristnogol Zwingli sef bod yr eglwys yn gweithredu mewn cynghrair â'r

wladwriaeth, a'u bod felly'n ystyried yr Ailfedyddwyr yn herwyr.

Ceisiodd Calvin, cenhedlaeth yn ddiweddarach yn y Swistir, gefnogaeth awdurdodau dinesig Genefa i greu'r ddinas yn theocratiaeth, gyda ffydd ac ymddygiad Cristnogol yn cael eu haddysgu gan yr eglwys a'u gorfodi gan y wladwriaeth. Nid yw'n eglur sut y bu i Calvin gysoni ei hyder mewn llywodraethwyr seciwlar gyda'i athrawiaeth sylfaenol o 'lwyrgredigaeth' (*total depravity*).³

Daeth mudiad Ailfedyddiaeth y Swistir i gael ei adnabod fel y Brodyr Swisaidd (*Swiss Brethren*). Fel llawer mudiad sylfaenol, tebyg i'r 'Arab Spring' yn ddiweddar, cododd Ailfedyddiaeth ei ben mewn rhannau eraill o Ewrop. Yn ne'r Almaen cysylltwyd hyn â *Gwrthryfel y Werin (Peasants' Revolt)*, yr oedd Luther wedi ei wrthwynebu, gan ochri gyda'r rhai oedd yn egsplotio yn hytrach na gyda'r rhai a oedd yn cael eu hegsbloitio - cyfaddawd symptomataidd o ddibyniaeth yr Eglwys Brotestannaidd ar y wladwriaeth. Un a oedd yn cefnogi'r Werin oedd Michael Sattler, mynach o Urdd Sant Bened a ffodd i Zürich ac ymuno â'r Ailfedyddwyr. Bu ef yn gyfrifol am ddrafftio *Cyffes Schleithem (Schleithem Confession)* a gafodd ei mabwysiadu gan y Brodyr Swisaidd yn y flwyddyn 1527.

Ar y cyfan, heddychwyr oedd yr Ailfedyddwyr a chawsant eu hadnabod trwy eu dilyniant egwyddorol o ddysgeidiaeth foesegol Iesu, fel y Bregeth ar y Mynydd (Mathew penodau 5-7), yn hytrach na chan ddatguddiadau goddrychol.

²<https://www.youtube.com/watch?v=GskZlcV1RIA> yma, fe welwch chi glip ffilm o'r diwygiad wedi ei ddramateiddio, a'r erledigaeth dilynol.

³Gwelwch <http://www.calvinistcorner.com/tulip.htm>

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

Ond yr oedd 'ysbrydoliaethwyr' ar gyrion y mudiad, yn cynnwys y rhai a geisiodd sefydlu theocratiaeth yn ninas Münster yng ngogledd-orllewin yr Almaen. Yn brin o'r sgiliau diplomataidd a ddangosodd Calvin yn ddiweddarach yn Genefa, ac yn cael eu gyrru gan frwdfrydedd proffwydol, roedd dilynwy'r Jan Matthys o'r Iseldiroedd yn dibynnu ar rym i sefydlu Münster fel y 'Jerwsalem Newydd.' Mae methiant y gwrthryfel hwn yn adnabyddus iawn, a wnaeth Ailfedyddiaeth ychydig yn fawr mwy na throednodyn mewn llyfrau hanes am ganrifoedd.

Er gwaethaf ffiasco Münster, roedd gogledd-orllewin Ewrop yn fan lle'r oedd gwir feddwl diwinyddol yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd dyneiddwyr y Dadeni Dysg, yn annhebyg i ddyneiddwyr seciwlar modern, bron i gyd yn Gristnogion. Roedd Erasmus, o bosib y mwyaf o'r rhain, yn offeiriad Catholig Iseldiraidd ac yn ddylanwad ar Zwingli. Roedd ei bwyslais ar ddarllen y Beibl yn rhesymol yn annog offeiriaid eraill i archwilio syniadau fel 'cymuned o nwyddau - *community of goods*' a bedydd y credinwyr (Francis, 2010, t. 9) - syniadau pwysig yn natblygiad meddwl Ailfedyddiaeth. Ymddangosodd Menno Simons fel arweinydd parchus ymhlith Ailfedyddwyr Iseldireddaidd, a adnabuwyd yn ddiweddarach fel y Mennoniaid (*Mennonites*). Yn ddiweddarach lledaenodd ddylanwad Calvin i'r Iseldiroedd ar ffurf yr Eglwys Ddiwygiedig Iseldireddaidd, er nad oedd hyn yn dda i'r Mennoniaid, a ffodd llawer o'r rhain i Ddwyrain Ewrop, Lloegr neu yn y pen draw i Ganada.

A yw'r Beibl yn bendant?

Digwyddodd y Diwygiadau – Ynadol a Radical – yn yr unfed ganrif ar bymtheg, cyn y Goleuo (Oes y Rhesymu). Roedd

pob un o'r Diwygwyr yn dymuno cymryd y Beibl o ddifrif, yn fwy llythrennol nag a fyddai'n gyffredin heddiw.

Chwiliodd y Diwygwyr Ynadol – Luther, Zwingli a Calvin – yn y Testament Newydd am gyfiawnhad dros eu hathrawiaethau ynghylch gras ac iachawdwriaeth, yn arbennig yn llythyrau Paul. Ond roedd eu modelau o gynghrair rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth yn debycach i'r Hen Destament, gyda brenhiniaeth ac offeiriadaeth yn cyd-redeg.

Roedd y Cristnogion cynnar bron bob un yn heddychwyr, yn cymryd o ddifrif ddysgeidiaethau fel 'troi'r foch arall' a 'carwch eich gelynyon' (Mathew 5:39, 44). Gwnaeth y symudiad Cystenninaidd heddychiaeth yn amhosib, gan y disgwyliid i Gristnogion fod yn ffyddlon i'r Ymerawdwr, ac roedden nhw felly'n gymwys i wasanaethu yn y fyddin. Ysgrifenna Stuart Murray:

Once, being a Christian and joining the army had seemed incompatible, but now a Christian army was being assembled to defend an Empire that was becoming Christian; soon only Christians would be allowed to enlist. (Murray, 2004, t.48)

Fe wrthododd yr Ailfedyddwyr y symudiad Cystenninaidd, ac felly gwrthod y Byd Cristnogol, boed yn Gatholig neu Brotestant, fel cyfaddawd anddaliadwy. Yn ddiwinyddol, ynghylch cyfiawnhad trwy ffydd roedd ganddyn nhw lawer yn gyffredin gyda'r Protestaniaid ond roedden nhw'n credu bod ffydd yn golygu dilyn Crist mewn bywyd, nid dim ond cydsynio â rhai athrawiaethau.

Yn dilyn o hyn, roedden nhw'n credu na chai'r eglwys ei ffurfio trwy fedydd gorfodol babanod, ond trwy wir

Y Diwygiadau: Ynadol a Radical

dröedigaeth i fywyd o ddisgyblaeth. Roedden nhw felly'n ymwrthod â gwahaniaeth y Diwygwyr rhwng eglwys weledol (offeren) ac eglwys anweledig (real), ac yn cydnabod un math o eglwys yn unig, gweledig a real.

Tra roedden nhw'n darllen yr Hen Destament yn ogystal â'r Newydd,

doedden nhw ddim yn ystyried bod y ddau'n gyfartal o ran pwysigrwydd. Yn neilltuol, dysgeidiaeth foesegol Iesu oedd eu 'rheol ar gyfer bywyd - *rule of life*, 'uchafbwynt - *high point*' y Beibl. Roedd hyn yn cynnwys cariad ac anwrthwynebiad. (Bender, 1944.)

Geirfa

Maddeuebau – Indulgences - oedd rhoddion i ddileu cosbau ym mhurdan.

Cyfiawnhad trwy ffydd – Justification by faith - yw gweithred o ras Duw, a dderbynnir yn unig drwy

ymddiried yn Nuw, yn yr hon y bydd pechaduriaid yn cael eu datgan yn ddiuog neu'n 'gyfiawn - *righteous*'.

Cysylltau

<http://www.anabaptists.org/history/the-schleitheim-confession.html> (The Schleithem Confession)

<http://www.calvinistcorner.com/tulip.htm> (Matthew J. Slick, The Five Points of Calvinism)

https://en.wikipedia.org/wiki/Magisterial_Reformation (Wikipedia, The Magisterial Reformation)

https://en.wikipedia.org/wiki/M%C3%BCnster_Rebellion (Wikipedia, The Münster Rebellion)

Trafodaeth: Ymarfer dychmygus

Dychmygwch eich bod yn Gristion argyhoeddedig yn byw yn ystod blynyddoedd cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg. Dydych chi ddim yn gweld yr un fath o ymrwymiad yn y mwyafrif o bobl yn eich eglwys leol, boed yn Gatholig neu'n Brotestant. Myfyriwch ar y crynodeb hwn o egwyddorion Ailfeddyddiad, yn seiliedig ar Gyffes Schleithem. Rhowch farc allan o 10 i bob un ohonyn nhw gan ddynodi eu hapêl i chi wrth i chi ystyried ymuno ag eglwys fach yn perthyn i'r Ailfeddydwyr.

- a. **Bedydd** (yn cynnwys cael ymaelodi â'r eglwys) mae hwn yn unig ar gyfer y rhai hynny sydd wedi ymrwymo eu hunain i ddilyn Crist yn y ffordd y maen nhw'n byw.
- b. **Torri bara** (cymun), mae'r weithred hon yn unig ar gyfer y rhai hynny'n unig a fedyddiwyd ac sy'n byw bywyd Cristnogol yn gyson.
- c. **Disgyblaeth eglwysig.** Dylid rhoi rhybudd unwaith neu ddwywaith yn breifat i unrhyw un sy'n peidio â byw bywyd Cristnogol yn gyson. Os na fydd y rhai hynny'n ystyried y rhybuddion, fe ddylen nhw gael eu disgyblu'n gyhoeddus a'u gorfodi i adael yr eglwys.

d. **Gwahanu oddi wrth ddrygioni.** Ni fydd aelodau o'r gymuned Gristnogol yn cynghreirio â phobl o'r tu allan a allai eu harwain at gyfaddawdu eu hufudd-dod i Grist.

e. **Bugeiliaid yn yr eglwys** sy'n gyfrifol am addysgu, ac arwain addoliad, yn gyfrifol am y sacramentau (bedydd a chymun) ac am ddisgyblaeth eglwysig. Mae'n ofynnol i'r rhain fod ag enw da.

f. **Anwrthwynebiad.** Fel yr addysgodd Iesu, ni ddylid defnyddio trais dan unrhyw amgylchiadau, yn cynnwys gwrthwynebu erledigaeth. Nid yw'n weddus i Gristion fod yn ynad, yn filwr nac yn swyddog o'r heddlu.

g. Nid yw **tyngu llwon** trwy wneud addewidion yn weddus nac yn angenrheidiol i Gristion, am i'r Iesu addysgu y dylem bob amser gadw at ein gair.

Os gallwch chi ddod o hyd i rywun arall sydd wedi gwneud yr ymarferiad hwn, trafodwch eich sgorau gyda'ch gilydd. Ydych chi'n meddwl y byddai'r rhain yn egwyddorion da ar gyfer cymuned Gristnogol heddiw?

Cyfeiriadau

- Bender, H.S. (1944). The Anabaptist vision. *The Mennonite Quarterly Review*, 18, XIII, 67-88 (<https://www.goshen.edu/mhl/Refocusing/d-av.htm>).
- Estep, W.R. (1996). *The Anabaptist story*. Grand Rapids, MI: Eerdmans.
- Francis, A. (2010). *Anabaptism*. Bristol, Imagier Publishing,
- Greenslade, S.L. (1954). *Church and state from Constantine to Theodosius*. London: SCM Press.
- McGrath, A. (1998). *Historical theology*. Oxford: Blackwell.
- Murray, S. (2004). *Post-Christendom*. Milton Keynes: Paternoster.
- Neill, S. (1968). *The church and Christian union*. London: Oxford University Press.

Mae Paul Wilson, sy'n gyn-Uwch Athro yng Ngholeg Chweched Dosbarth Bede, yn meddu ar raddau Meistr mewn mathemateg a diwinyddiaeth. Yn awr wedi ymddeol, mae'n parhau'n weithredol ym myd addysgu'r ddwy ddisgyblaeth, a hynny er mwynhad yn unig.